Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 2/5/17 News

Profion Cenedlaethol / National Tests

Cofiwch y bydd y Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol i Bl 2 – 6 yn cael eu cynnal yr wythnos yma a'r wythnos nesaf **Mae hi'n bwysig iawn fod eich plentyn yn yr ysgol y dyddiau yma.** Dyma linc i fwy o wybodaeth i rieni am y profion:
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170413-information-for-parents-carers-2-9-cy.pdf
Please remember the National Literacy and Numeracy Tests for Yr 2 – 6 pupils are taking place this week and next week. ***It is very important that your child attends school during these days.*** *Here is a link to information to parents about the tests: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170413-information-for-parents-carers-2-9-en.pdf*

3/5/17 Darllen Cymraeg / *Welsh Reading*
4/5/17 Maths Gweithdrefnol / *Procedural Maths*
5/5/17 Darllen Saesneg Bl 3, 4 a 5 / *English Reading Yr 3, 4 & 5.*
8/5/17 Darllen Saesneg Bl 6 / *English Reading Yr 6*
10/5/17 Rhesymu / *Reasoning*

Eisteddfod Derwen

Cofiwch am Eisteddfod Derwen nos Wener. Bydd y parti llefaru, parti unsain a'r côr yn cystadlu. Mae'n anodd rhoi amser i'r cystadleuthau – fel arfer mae'r partion ar ôl yr unigolion ac felly bydd hi tua 8pm neu hwyrach arnyn nhw yn cystadlu mae'n debyg. Pob lwc i bawb. *Remember that it is Derwen Eisteddfod on Friday. The recitation party, unison party and choir will be competing. It is difficult to give you a time – usually the parties compete after the competitions for individual children and therefore they will be 8pm or later more than likely. Good luck to everyone.*

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

2/5/17 Clwb Garddio Bl 5 a 6 *Gardening Club*
2/5/17 Clwb Chwaraeon Bl 3 & 4 *Sports Club*
3/5/17 Prawf Darllen Cymraeg/*Welsh Reading Test*
4/5/17 Prawf Maths Gweithdrefnol / *Procedural Maths Test*
5/5/17 Prawf Darllen Saesneg Bl 3, 4 a 5 / *English Reading Test Yr 3, 4 & 5.*
5/5/17 Eisteddfod Derwen
8/5/17 Prawf Darllen Saesneg Bl 6 / *English Reading Test Yr 6*
9/5/17 Gala Nofio Dyffryn Clwyd /Vale of Clwyd Swinmming Gala – Pwll Nofio Rhuthun
9/5/17 Clwb Garddio Bl 3 a *4 Gardening Club*
9/5/17 Clwb Chwaraeon Bl 5 a 6 *Sports Club*
9/5/17 Cyfarfod Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Meeting* 7.30pm Cyffylliog.
10/5/17 Prawf Rhesymu / *Reasoning Test*
12/5/17 Twrnament Rygbi Tag yr Urdd *Tag Rugby Tournament Clwb Rygbi* Abergele (Bl 5 & 6)
16/5/17 DIM Clwb Garddio Bl 5 a 6 ***NO Gardening Club***
16/5/17 Clwb Chwaraeon Bl 3 & 4 *Sports Club*
19/5/17 Helfa Drysor Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Treasure Hunt*
23/5/17 Athletau'r Urdd Sir Ddinbych yng Nghei Connah / *Denbighshire Urdd Athletics - Connah's Quay* 4.30pm **DIM CLYBIAU / NO CLUBS**
26/5/17 Cau - Hanner Tymor / Close for *Half Term*
30/5/17 Parti Unsain yn Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Pen y Bont ar Ogwr / *Unison Party competing at the Urdd Eisteddfod - Bridgend*
5/6/17 Ysgol yn agor / School re opens
5-7/6/17 Bl 5 a 6 yn ymweld a Gwersyll yr Urdd Llangrannog. *Yr 5 & 6 visit to Llangrannog Urdd Centre.*

Plant Meithrin / Nursery Children.

A wnaiff y plant meithrin ddod a dillad addysg gorfforol I'r ysgol – crys t gwyn, siorts du a pumps neu dreinyrs. **COFIWCH ROI ENW EICH PLENTYN AR BOPETH**. Bydd angen gadael y bag addysg gorfforol yn yr ysgol tan hanner tymor. *Can nursery children please bring in a PE kit to school – white t-shirt, black shorts and pumps or trainers.* ***PLEASE ENSURE THAT YOUR CHILD'S NAME IS ON EVERYTHING.*** *They will need to keep the PE kit in school until half term.*

Celf yr Urdd – Canlyniadau y Sir

Cawsom 19 gwobr yng Nghystadleuaeth Celf Urdd y Sir. Cawsom 9 gwobr cyntaf a bydd gwaith Bethan, Katie, Siwan, Joel, Maisy, Morgan ac Anest yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth genedlaethol. *The school won 19 prizes in the Urdd County Arts and Craft competition. We won 9 first prizes which will go through to the national competition. Therefore good luck to Bethan, Katie, Siwan, Joel, Maisy, Morgan and Anest in the national competition*

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Mia, Sofia, Meleri, Nansi ac Elain am fod yn Sêr yr Wythnos. Da iawn chi!

Cystadleuaeth Mathemateg Bl 5 Ysgol Rhuthun / Ruthin School Yr 5 Maths Competition

Bu Orla, Tom a Pippa yn cynrychioli yr ysgol mewn cystadleuaeth Mathemateg yn Ysgol Rhuthun. Daethant yn 4ydd allan o 17 o dimau. Ardderchog! *Orla Pippa and Tom represented the school in a Maths Competition organized by Ruthin School. They came 4th out of 17 teams - excellent!*

Enillwyr
Ffair Pasg Siop y Fro Easter Fair Winners

Llongyfarchiadau I'r plant enillodd gystadleuaeth liwio Pasg Siop y Fro. *Congratulations to the children who won the Siop y Fro Easter colouring competition.*

PARCIO / PARKING

Rydym yn gofyn eto i bawb ofalu nad ydynt yn blocio mynedfeydd i dai lleol yng Nghlocaenog pan yn dod a'r plant yn y bore a'u nhôl yn y prynhawn. Rydym yn deall fod llefydd parcio yn brin felly a fedrwch ddefnyddio y bysiau mini i gludo eich plant os yn gymwys i gael trafnidiaeth, cerdded i'r ysgol os yn agos neu rannu ceir os yn bosib. Efallai y byddai hyn yn lleihai ychydig ar y traffig yn y pentref yn y bore. Diolch am eich cydweithrediad. *We ask again if everyone could ensure that they do not block driveways when dropping your children off in the mornings and picking them up in the afternoons. We understand that there aren't many parking spaces, therefore could children that are eligible for school transport travel on the mini buses as often as possible, families that live nearby walk to school and maybe some families could even car share. This might alleviate the parking problem in Clocaenog. Thank you for your co-operation.*

Teithio i'r Ysgol yn Ddiogel
Travelling to School Safely

Cafodd yr ysgol neges gan aelod o'r cyhoedd yr wythnos diwethaf yn dweud eu bod wedi gweld dau blentyn yn cyrraedd safle Clocaenog yn eistedd yn sedd flaen car. Roedd y ddau blentyn yn eistedd yn y set flaen er bod lle yn y sedd gefn ac nid oeddynt mewn seddi 'booster'. Aeth y ddau blentyn ar y bws ac felly plant Cyfnod Sylfaen oedden nhw. Roedd y person a gysylltodd a'r ysgol yn poeni yn arw am ddiogelwch y plant ac yn teimlo fod raid iddynt adael i'r ysgol wybod am hyn. Rydym yn gofyn yn garedig i bawb sicrhau fod pob plentyn yn cael ei gludo i'r ysgol ac adref mewn ffordd ddiogel. Dylai plant ifanc fod mewn seddau 'booster' a dylai pob plentyn fod yn gwisgo gwregys. Gofynnwn i chi rannu y neges yma gyda unrhyw un sy'n cludo eich plant i'r ysgol mewn car.
A member of the public informed school last week that they had seen two children arrive at the Clocaenog site sitting in the front passenger seat of a car. The two children were sitting in the front seat although there was room for them in the back seat and they were not in booster seats. The two children went on the bus and therefore were Foundation Phase pupils. The person that reported this to school was very concerned for the safety of the children and felt obliged to report this to school. We kindly ask you to ensure that your children are carried to school in a safe manner. Young children should be in booster seats and all children should wear seat belts. Please pass on this message to any other person that carry your children to or from school.

Cefnogi'r Adeilad Newydd
Support for the New Build

Roedd yn braf gweld gymaint o bobl wedi dod i gefnogi y cais adeiladu i gael adeilad newydd yng Nghlocaenog nos Lun diwethaf. Bydd y lluniau yn cael eu hanfon i bapurau lleol er mwyn dangos y gefnogaeth sydd i'r prosiect gan y gymuned leol. *It was great to see so many people come out to support the planning application for a new building in Clocaenog. The photo will be sent to the local press with a press release to show how much support there is for the project from local people. .*

Gweithdy Mathemateg
Maths Workshop

Daeth Anne a Dafydd o Techniquest Glyndwr i'r ysgol bore Mercher diwethaf i gynnal Gweithdai Rhesymu Mathemateg. Cafodd plant Bl 1 i Bl 6 hwyl yn ymarfer sgiliau mathemateg drwy drefnu parti, coginio pizza a bod yn dditectifs. *Anne and dafydd from Techniquest Glyndwr came to school on Wednesday with some Reasoning Maths activities for the children. Yr 1 to Yr 6 had fun practcing their maths skills organising a birthday party, preparing a pizza and doing some detective work.*



Helfa Drysor / Treasure Hunt
Nos Wener Mai 19eg / Friday Evening May 19th

Roedd yr Helfa Drysor yn boblogaidd iawn y flwyddyn diwethaf ond yn anffodus roedd llawer wedi gorfod aros yn hir am eu bwyd gan nad oedd y bwyty yn disgwyl gymaint o bobl. Felly eleni, fedrwch chi adael i'r ysgol wybod erbyn Dydd Gwener Mai 12fed os ydych yn bwriadu mynd ar yr helfa drysor er mwyn i ni gael syniad o rifau. Gobeithio y bydd criw mawr am ymuno yn yr helfa drysor eto eleni.

The Treasure Hunt was very popular last year but unfortunately there was a bit of a wait with the food because the restaurant didn't expect to be feeding so many people. Therefore this year can you let the school know by Friday May 12th if you intend going on the treasure hunt so that we have a rough idea of numbers. Let's hope there will be a good turn out again this year.